# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 4

CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

### 84 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

(1) Cynllun yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys—

(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—

(i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio.

(4) Wrth lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg neu gynllun diwygiedig, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) ei awdurdodau lleol cyfagos;

(b) pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;

(c) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;

(d) pob sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ei ardal;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 84 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(e) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal—
   (i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a
   (ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

(f) personau rhagnodedig eraill.

(5) Os yw awdurdod lleol yn cynnal asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â rheoliadau o dan adran 86, rhaid iddo ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw y tro nesaf y bydd yn llunio neu'n diwygio ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 84 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 84 mewn grym ar 3.12.2013 gan O.S. 2013/3024, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 84 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)